ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 4 Cyfrol 17 Hydref 2020

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

RHYDDID MEWN CAETHIWED - BLWYDDYN Y CLO

Niclas, Mati ac Eleri ger Llyn Idwal

ICHTHUS DIGIDOL

Mae'r rhifyn hwn, fel y ddau ddiwethaf, yn un digidol yn unig oherwydd y cyfyngiadau sy'n parhau i effeithio arnom yn sgil Covid-19. Oherwydd ansicrwydd cyffredinol y sefyllfa fe welwch fod sawl adran arferol, sy'n sôn am bethau i ddod, wedi'u hepgor unwaith eto. Er hynny, byddwn yn gwneud ein gorau i gadw mewn cysylltiad gyda'n holl aelodau a chyfeillion drwy e-bost, llythyr a ffôn er mwyn eich diweddaru fel bo'r angen.

YN Y CYFAMSER, CADWCH YN DDIOGEL, A DYMA RESTR ISOD O WASANAETHAU SYDD AR GAEL AR WAHANOL GYFRYNGAU, TREFNIADAU AMGEN AC AMBELL FFYNHONNELL O WYBODAETH DDEFNYDDIOL. GWELER HEFYD TUDALEN 23 AM DDIGWYDDIADAU MWY PENODOL I FEREA NEWYDD.

- **Cofiwch fod S4C yn darlledu *Yr Oedfa* am 11:00 ar foreau Sul. Bydd oedfaon ar ar 8 Tachwedd (Sul y Cofio), 15 Tachwedd (Aml-ffydd), 29 Tachwedd (Adfent) a 25 Rhagfyr (Nadolig).**

- **Mae *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ar S4C am 7.30 bob nos Sul.**

- **Mae'r Cyngor Ysgolion Sul wedi paratoi cyfeirlyfr o adnoddau i eglwysi i'w helpu i ddarparu ar gyfer eu haelodau. Gweler** *https://www.ysgolsul.com/?page_id=6474*

- **Ceir yr arweiniad diweddaraf gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar** *https://www.ebcpcw.cymru/cy/coronafeirws/*

- **Mae gwasanaethau a myfyrdodau ar gael ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru dan y pennawd 'Hafan',** *https://www.ebcpcw.cymru/cy/*

- **Bydd *Y Goleuad* yn cael ei gyhoeddi ar y we yn unig dros gyfnod yr argyfwng. Bydd yn ymddangos ar ddydd Mawrth ac ni fydd yn cael ei argraffu a'i anfon yn y post. Gweler** *https://www.ebcpcw.cymru/cy/*

- **Mae modd clywed oedfa, yn cynnwys darlleniadau, gweddi, emynau a phregeth, a hynny yn rhad ac am ddim, drwy ddeialu 02920 101564. Pan fyddwch yn deialu bydd opsiwn i wrando ar Oedfa Gymraeg, Oedfa Saesneg, Newyddion Cymraeg a Newyddion Saesneg. Mi fydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.**

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Daeth tymor y diolchgarwch unwaith eto, ac yn rhyfedd iawn y mae amgylchiadau'r misoedd diwethaf wedi dangos inni gymaint sydd gennym i fod yn ddiolchgar amdano. Gwelsom garedigrwydd ac ymroddiad ar bob llaw wrth i bobl helpu ei gilydd drwy gyfnod anodd, a bu i ni sylweddoli o'r newydd nad yw cypyrddau llawn yn ddigon, ond ein bod hefyd angen cwmni a chymdeithas a gweld bod ystyr i fywyd.

Yn draddodiadol roedd yr Ŵyl Ddiolchgarwch yn dwyn pobl at ei gilydd i roddi diolch i Dduw am y cynhaeaf, ac roedd diolchgarwch ynghlwm â'r sylweddoliad fod pawb yn dibynnu ar y Creawdwr. Er mai am gynhaliaeth blwyddyn arall yr oeddid yn diolch, roedd gwneud hynny ynddo'i hun yn codi golygon pobl uwchlaw eu hamgylchiadau presennol. Gosodid bywyd mewn cyd-destun amgenach na byw beunyddiol, ac yn ddieithriad byddai ystyriaethau ysbrydol a chymdeithasol hefyd yn llenwi'r ŵyl:

Ar ei drugareddau
yr ydym oll yn byw;
am hynny dewch a llawenhewch,
cans da yw Duw.
(C.Ff. 130 Elfed)

Meddyliwn yn arbennig eleni am bobl y mae'r pandemig wedi effeithio'n fawr iawn arnynt, yn enwedig mewn gwledydd lle y mae adnoddau a gofal iechyd yn brin. Mae Cymorth Cristnogol wedi lansio Apêl Hydref a gobeithiwn fel eglwys allu cefnogi'r apêl honno.

Rhaid diolch hefyd am bob cefnogaeth a roddir i achosion lleol, ac yn arbennig am bob haelioni tuag at y capel. Daeth yr Adroddiad Blynyddol bellach i olau dydd, ac fe ddylai pob aelod fod wedi cael nodyn i ddweud beth oedd eu cyfraniadau y llynedd (2019). Gwn nad yw wedi bod mor hawdd cyfrannu eleni, gan na fu i ni gynnal oedfaon dros fisoedd y gwanwyn a'r haf, ond mae'r eglwys yn parhau i ddibynnu ar eich haelioni. Gellwch gyfrannu yn uniongyrchol drwy'r banc neu drwy anfon siec at y Trysorydd – mae'r manylion i'w gweld isod.

Anfonwn ein cofion fel erioed at bawb sy'n wael neu mewn gofid, y teuluoedd sydd mewn profedigaeth a'r aelodau a'r cyfeillion hynny sydd mewn cartref ac ysbyty. Gwn fod amgylchiadau amryw ohonoch wedi newid yn ystod y misoedd diwethaf, a byddwn yn ddiolchgar am bob cymorth i gadw mewn cysylltiad â'n

haelodau. Anfonwch air os tybiwch y dylwn fod yn ymwybodol o unrhyw newid.

Gweddi
Arglwydd Dduw ein Tad nefol,
cyflwynwn i'th ofal cariadus
bawb sydd mewn gwendid,
y cleifion mewn cartrefi ac ysbytai,
a phawb sydd mewn profedigaeth.
Drwy dy Ysbryd Glân gwna hwy'n
ymwybodol o'th gariad,
a thrwy dy Eglwys a'th bobl
estyn iddynt gysur a nerth.
Hyn a ofynnwn yn enw Iesu Grist,
ein Harglwydd. Amen.

Yn gywir,
Elwyn

Dyma'r manylion ar gyfer cyfrannu tuag at y capel:
Enw'r cyfrif: Capel Berea Newydd
Banc: HSBC Côd :40-09-03
Rhif y cyfrif: 51584928
Trysorydd: Mrs Cynthia Owen, 14 Lôn y Meillion, Bangor, LL57 2LE

R. T. JENKINS A PHERFEDDGOED

GERAINT PERCY JONES

Faint o'n darllenwyr, tybed, a ŵyr lle y mae Perfeddgoed yn ardal Bangor? Ac o'r rhai a ŵyr, beth wyddoch chi am hanes y tŷ mawr yma?

Yn ystod y clo mawr yn gynharach yn y flwyddyn, manteisiodd Meira a minnau, fel llawer o'n cydnabod, ar y cyfyngiadau i ddod i adnabod ein milltir sgwâr yn well. Un o'r llwybrau 'newydd' i ni oedd y llwybr sydd yn dringo o Fryn Llwyd, ar waelod Coed Mawr, ac yn dod allan ar y ffordd rhwng Caerhun a Minffordd. Tua phen y llwybr aem heibio tŷ hyfryd iawn o'r enw Perfeddgoed Bach. Wrth siarad â Mrs Vaughan, perchennog yr adeilad hyfryd yma, cawsom wybod fod y tŷ gwreiddiol yn mynd yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg ac mai *'lodge'* i'r plasty, Perfeddgoed Mawr ydoedd. Cawsom wybod dipyn o hanes diweddar y plas ond er holi sawl person nid oeddem fawr callach am ei orffennol.

Yn annisgwyl iawn tua'r adeg yma, wrth i mi ddarllen hunangofiant cyfareddol R. T. Jenkins, *Edrych yn Ôl*, trewais ar frawddeg nad oeddwn wedi sylwi arni o'r blaen:

Toc, aethpwyd â mi i fyw gyda Syr Henry Jones i Berfeddgoed, ac yno y bûm am wythnosau, yn cyd-chwarae â'i fechgyn dan lygad gofalus Sgotaidd ei briod.

Gwyddwn mai mab i grydd o Langernyw oedd Henry Jones, iddo adael yr ysgol yn ddeuddeg oed yn 1864, ac iddo, ar ôl gyrfa ddisglair, gael ei benodi'n Athro Athroniaeth

yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor. Bu yma am saith mlynedd. Tybed ai yn y plasty hanesyddol, Perfeddgoed, y trigai?

Yn Lerpwl yn 1881 y ganed R. T. Jenkins, un o haneswyr mwyaf Cymru erioed a llenor helaeth ei gyhoeddiadau. Ystyrir ef gan lawer ohonom yn un o feistri pennaf ein rhyddiaith. Yn 1930 fe'i penodwyd yn ddarlithydd ym Mangor ac yn 1946 dyrchafwyd ef i Gadair Hanes Cymru. Bu farw yn 1969 a dichon fod rhai o'r darllenwyr hynaf yn ei gofio. Y mae gan yr oedd y teulu yn byw ar y cyntaf ond wedyn symudwyd i dŷ o'r enw Pen-y-bryn, yn union ar gyfer yr hen Goleg.
Unig blentyn oedd RT. Fe'i hanfonwyd i ysgol *'Castle Bank*' gerllaw. 'Ysgol fach sidêt y byddem yn gorfod tynnu ein hesgidiau a gwisgo slipers cyn croesi ei throthwy,' oedd hon, yng ngofal dwy Miss Jones.

Ni chafodd na'r tad na'r fam iechyd da. Yn Nhachwedd 1887 bu'r fam farw o'r diciáu. Dyn eiddil oedd y tad. Aeth ei iechyd yntau

'*Bangor From Perfeddgoed Road*'

lawer ohonom atgofion annwyl iawn am Myfanwy, ei briod, ac am ei ffyddlondeb hi yn Nhŵr Gwyn.

Pan agorwyd Coleg y Gogledd yn 1884, penodwyd tad RT yn glerc i W. Cadwaladr Davies, cofrestrydd y Coleg. Golygai hyn mai ef oedd pennaeth y swyddfa. Yn y Garth 'i lawr y rhiw ar garlam' a dechrau Mai 1888 bu farw ac yntau ond yn ddeugain oed. Dyma sut y mae RT Jenkins yn cyfeirio at y cyfnod trist yma:

Rhyw fore cyrchwyd fi i lawr, yn llaw Henry Jones, i Ben-y-bryn. Er na wyddwn hynny, ffarwelio â'm tad oedd fy neges – eithr ni

chofiaf ond gwên hynod garedig y nyrs a oedd wrth erchwyn y gwely, a'r boddhad o gael fy nghinio yn y gegin gartref gyda'r forwyn. Bu farw fy nhad ddechrau Mai 1888. Ni chofiaf ond y torchau o friallu melynion ar ei arch.

Yr oeddwn yn rhy fychan i fod yn gyfaill i'm tad – yn ddim mwy na baich ar ei ysgwyddau meinion, a dweud y gwir. Nid anghofiaf byth mohono: y corff main gweddol dal, y farf letgoch, y llais mwyn, yr osgo.

Yn dilyn tristwch colli'r fam, mae'n debyg fod cyfaill mawr i'r tad, yn Lerpwl neu Fanceinion, wedi pwyso ar gael mabwysiadu'r plentyn chwech oed ond fod y tad, yn stowt, wedi gwrthod. Dyna golled i'n diwylliant, i'n hysgolheictod, i'n llenyddiaeth fyddai magu R. T. Jenkins yn Sais mewn dinas yn Lloegr wedi bod. Ein ffawd dda ni ydi mai yn y Bala ar aelwyd ei daid a'i nain y'i magwyd.

Yn Lerpwl, cyn symud i fyw ym Mangor, aelodau o eglwys Saesneg y MC yn Windsor Street oedd rhieni R.T. Jenkins. Thomas Charles Edwards oedd y gweinidog. Ac ar ôl symud, i gapel Princes Road, capel Saesneg, yr âi'r teulu. Capel *snobs* Upper Bangor oedd hwn. Yn ei hunangofiant dywed yr awdur wrthym y perthynai ei rieni i'r 'genhedlaeth a roddai ei goglud ar Saesneg'. Dywed hefyd mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd.

Disgrifiodd R. T. Jenkins Bangor fel 'lle melancolaidd, hirgul, mewn hollt yn y creigiau a chwithau a'ch trwyn yn taro ar ryw fynydd i ble bynnag y trowch'. Tybed, pan ddaeth i fyw ym Mangor, a gerddodd o'r llwybr o Fryn Llwyd i gyfeiriad Perfeddgoed ac yna dilyn nant hyfryd o Bant Caerhun tuag at Ffordd Caernarfon yn agos i lle mae Tesco heddiw? Rwy'n siŵr y gwyddai am lun a gedwir yn y Llyfrgell Genedlaethol gan arlunydd o'r enw J. Newman *(fl. 1838–1880)* gyda'r teitl *'Bangor from Perfeddgoed Road'*. Mae'n llun bendigedig o'r ddinas. Rwy'n siŵr hefyd y gallai ddweud mwy wrthym am ddau offeiriad eglwysig – Pearce Owen Mealey a Richard Ridgeway Parry Mealy – a fu'n byw ym Mherfeddgoed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Byddai'n braf meddwl y cawn eto, yn fuan, gerdded y llwybr hyfryd i gyfeiriad Perfeddgoed a thalu'n ternged i R.T. Jenkins, yr hanesydd a oleuodd gymaint ar orffennol Methodistiaeth.

FFURFLENNI GDPR

Hoffwn eich atgoffa fod ambell aelod heb dychwelyd ei ffurflenni GDPR. Mae'n bwysig fod gan yr eglwys fanylion llawn yr aelodau, ac ar yr un pryd yn cydymffurfio gyda'r rheolau gwarchod data. Mae ffurflenni ar gael gan unrhyw flaenor, ac yr ydym fel swyddogion yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad a'ch cymorth.

Alwyn Lloyd Ellis, Ysgrifennydd Ariannol a Swyddog GDPR

2020

Daeth drycin y diafol fis Mawrth ar ymweliad,
arhosodd am fisoedd yn ddiwahoddiad,
prociodd bob ofn, croesawodd ein dagrau,
a gwenodd pan welodd y byd ar ei liniau.

Ond drannoeth y gawod gyntaf, a'r ddaear yn glaf,
chi heriodd y storm gan leisio nodau gobaith
a'u gwasgaru'n gonffeti ar ein strydoedd swil.

Ac er bod rhywrai yn dal i'ch diawlio
am darfu ar recordiad neu styrbio galwad ar-lein,
parhau wna eich trydar penderfynol,
yn grescendo o gysur chwerw-felys
nes ein perswadio

mai blwyddyn yr adar yw dwy fil ac ugain.
A'ch miri mwyn yn mwytho ein gofid,
yn addewid bod blynyddoedd gwell i ddod.

Lois Medi Wiliam

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

Annwyl blant,
Mae wedi bod yn amser hir iawn ers i ni allu cwrdd yn yr ysgol Sul a'r clybiau CIC, ac rydw i'n eich colli chi i gyd yn fawr, ac eisiau i chi wybod fy mod i'n meddwl llawer amdanoch. Mae bywyd wedi bod yn wahanol iawn, ac o siarad â'ch rhieni rwy'n credu eich bod chi i gyd wedi gwneud yn rhyfeddol o dda yn ystod y cyfnod hwn i addasu ac aros yn bositif, ac mae hynny mor bwysig. Mae'n bwysig ein bod ni'n ddiolchgar am bopeth sydd gennym ac yn gwerthfawrogi'r bobl sy'n ein helpu. Wrth ddiolch, byddwn hefyd yn siŵr o edrych am ffyrdd o helpu eraill.

Er nad ydym efallai'n sylweddoli hynny ar hyn o bryd, mae yna lawer o bobl ledled y byd sydd mewn sefyllfa waeth na ni. Pobl heb fwyd, heb gartref, heb feddyginiaeth; ac rydym i gyd yn adnabod rhywun sydd mewn ysbyty neu mewn cartref gofal ac efallai mewn poen neu neu'n teimlo'n unig.

Rwyf wedi clywed bod rhai o deuluoedd Berea Newydd wedi bod yn brysur yn siopa ac yn mynd â bwyd a phethau eraill angenrheidiol i gymdogion a ffrindiau, ac yn cadw mewn cysylltiad agos ag eraill rhag iddynt deimlo'n unig. Dyma'r union fath o beth y mae Iesu Grist yn ddweud wrthym am ei wneud.

Gobeithio eich bod yn falch o fod yn ôl yn yr ysgol. Roedd Gruff a Lena wrth eu bodd yn cael mynd yn ôl, er fy mod yn credu bod hynny fwy i'w wneud â gweld eu ffrindiau na dim arall!

Rydw i wedi bod yn meddwl yn arbennig am y plant sydd wedi mynd i'r ysgol uwchradd. Rydw i'n mawr obeithio eich bod chi'n mwynhau. Mae rhai o'r ieuenctid, wedyn, wedi dechrau ar eu tymor cyntaf mewn coleg a phrifysgol, ac rwy'n siŵr ei fod wedi bod yn gyfnod heriol iddynt hwythau. Ond rhaid parhau i fod yn bositif gan wybod y byddwn yn siŵr o allu mynd drwy'r cyfnod anodd yma drwy bwyso ar deulu a ffrindiau ac ar ein ffydd yn Nuw. Edrychwn ymlaen at fod gyda'n gilydd yn fuan. Fe wnaiff pethau ddod yn ôl i drefn, ond gobeithio na fyddwn byth eto yn rhy brysur i helpu eraill.

Byddaf yn cadw mewn cysylltiad â chi wrth ddechrau cynllunio ar gyfer cyfnod y Nadolig. Cofiwch beidio ag oedi os ydych am gysylltu â mi – mae'r manylion cyswllt isod.

Hefyd rwyf wedi cynnwys ychydig o weithgareddau Diolchgarwch i chi blant eu cwblhau.

Hwyl a chofion cynnes
Owain
07789 887689
01492 640525
owain.davies@ebcpcw.cymru

Stori

Fersiwn Beibl.net

Dwedodd y stori yma pan oedd tyrfa fawr o bobl o wahanol drefi wedi casglu at ei gilydd: "Aeth ffermwr allan i hau hadau. Wrth iddo wasgaru'r had, dyma beth ohono yn syrthio ar y llwybr. Cafodd ei sathru dan draed, a dyma'r adar yn ei fwyta. Dyma beth ohono yn syrthio ar dir creigiog, ond wrth ddechrau tyfu dyma fe'n gwywo am fod dim dŵr ganddo. A dyma beth yn syrthio i ganol drain. Tyfodd y drain yr un pryd a thagu'r planhigion. Ond syrthiodd peth ohono ar bridd da. Tyfodd hwnnw, a rhoddodd gnwd oedd gan gwaith mwy na beth gafodd ei hau."

Ar ôl dweud hyn, galwodd allan yn uchel, "Gwrandwch yn ofalus os dych chi'n awyddus i ddysgu!"

Yn nes ymlaen dyma'i ddisgyblion yn gofyn iddo beth oedd ystyr y stori. Atebodd Iesu, "Dych chi'n cael gwybod beth ydy'r gyfrinach am deyrnasiad Duw, ond i eraill dw i ddim ond yn adrodd straeon, felly, 'Er eu bod yn edrych, chân nhw ddim gweld; er eu bod yn gwrando, chân nhw ddim deall.'

Dyma beth ydy ystyr y stori: Neges Duw ydy'r hadau. Y rhai ar y llwybr ydy'r bobl sy'n clywed y neges, ond mae'r diafol yn dod ac yn cipio'r neges oddi arnyn nhw, i'w rhwystro nhw rhag credu a chael eu hachub. Y rhai ar y tir creigiog ydy'r bobl hynny sy'n derbyn y neges yn frwd i ddechrau, ond dydy'r neges ddim yn gafael ynddyn nhw. Maen nhw'n credu am sbel, ond pan ddaw'r amser iddyn nhw gael eu profi maen nhw'n rhoi'r gorau iddi. Yna'r rhai syrthiodd i ganol drain ydy'r bobl sy'n clywed y neges, ond mae poeni drwy'r adeg am bethau fel cyfoeth a phleserau yn eu tagu, a dŷn nhw ddim yn aeddfedu. Ond yr hadau syrthiodd i bridd da ydy'r bobl hynny sy'n clywed y neges ac yn dal gafael i'r diwedd – pobl sydd â chalon agored ddidwyll. Mae'r effaith ar eu bywydau nhw fel cnwd anferth."

Luc 8:4-15 Beibl.net

Fersiwn syml

Dywedodd Iesu stori wrth y dyrfa. "Aeth ffermwr allan i hau hadau. Wrth iddo hau dyma ychydig o hadau yn syrthio ar y llwybr a dyma'r adar yn dod a'i bwyta. Syrthiodd ychydig ar dir creigiog, a dechreuon nhw dyfu ond doedd dim digon o bridd i'r gwreiddiau felly wnaethon nhw wywo. Syrthiodd ychydig i ganol drain ac wrth i'r planhigion dyfu, wnaethon nhw gael eu tagu gan y drain. Syrthiodd ychydig ar dir da a thyfodd y planhigion a chafwyd cynhaeaf da".

Gofynnodd y disgyblion i Iesu egluro ystyr y stori. "Y ffermwr ydy'r un sydd yn rhannu neges Duw a'r had ydy'r neges. Mae calonnau rhai pobl fel y llwybr, maen nhw'n clywed y neges ond mae'n cael ei gipio i ffwrdd. Mae calonnau pobl eraill fel y tir creigiog, maen nhw'n derbyn y neges ar y cychwyn ond yn rhoi'r gorau i wrando. Mae calonnau pobl eraill fel tir ble mae'r drain yn tyfu, mae pethau eraill yn eu bywydau'n tagu'r neges. Ond mae clonnau'r bobl sydd yn barod I wrando a derbyn fel tir da, mae eu ffordd o fyw fel cynhaeaf da.

Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi ceisio tyfu planhigion o hadau? Ble ydy'r lle gorau i blannu hadau?
2. Mewn sut fath o lefydd oedd yr hadau yn y stori wedi syrthio?
3. Beth ddywedodd Iesu oedd yr hadau yn y stori?
4. Beth ddywedodd Iesu oedd y pedwar tir gwahanol?
5. Tebyg i ba un o'r pedwar tir fuaset ti'n licio bod?

Stori i'w lliwio

Dameg yr Heuwr

www,lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther

"Sut fedra i fynd i'r nefoedd?" Rydyn ni i gyd yn gofyn y cwestiwn hwn ac fe ofynnodd Nicodemus hyn hefyd i Iesu. Dyma hanes sydd wedi ei gofnodi yn y Beibl.

Adroddodd Iesu'r ddameg hon am ffermwr yn gwasgaru hadau yn y cae. Roedd o eisiau i'r hadau dyfu'n dda fel ei fod yn cael cynhaeaf mawr.



Syrthiodd rhai o'r hadau ar y llwybr a chawsant eu gwasgu dan draed.



Syrthiodd rhai o'r hadau ar dir da ond daeth adar a'u bwyta.

Syrthiodd rhai eraill o'r hadau ar greigiau ble y dechreuon nhw dyfu ond wnaethon nhw ddim gwreiddio a buont farw oherwydd y gwres a'r sychder.

Syrthiodd rhai o'r hadau ymysg y chwyn a'r drain. Tyfodd y chwyn yn fwy ac ni allai'r planhigion newydd dyfu am nad oedd lle iddynt.

Ond diolch byth, fe syrthiodd rhai o'r hadau ar dir da a thyfu'n gryf ac yn fawr. Daeth cynhaeaf ardderchog o hadau o'r planhigion newydd.

Mae geiriau Duw fel hadau'n tyfu yn ein calonnau. Rydw i eisiau i gariad Duw dyfu'n gryf yn fy nghalon i. Rydw i'n mynd i ddweud wrth bawb am Iesu.

Gweddi fer

O Dduw,
diolch i Ti am gael clywed y newydd da am dy gariad Di.
Diolch i Ti am y bobl sydd wedi dweud wrtha i amdanat Ti.
Plîs helpa fi i fod yn debyg i'r tir da - yn gwrando o ddifrif ar beth wyt Ti'n ddysgu yn y Beibl.
Amen.

Sialensau

Croesair dy hun

Meddylia am bethau rwyt ti'n ddiolchgar amdanyn nhw. Gwna groesair mawr ohonyn nhw gan ddefnyddio llythrennau Scrabble (neu rywbeth tebyg). Gofynna i dy deulu helpu.

Plannu bylbiau'r gwanwyn

Yn ein stori'r wythnos hon, aeth y dyn allan i hau hadau.

Beth am blannu rhai cennin Pedr, crocysau neu fylbiau gwanwyn eraill?

Byddi angen potyn / twb, compost a rhai bylbiau.
Paid ag anghofio eu dyfrio!

Chwilair

D	Ŵ	R	W	S	A	P	N	H	A	U	P
T	C	U	D	E	R	C	A	I	DD	L	O
Ŵ	R	H	O	I	B	W	Y	T	A	U	E
D	G	A	DD	LL	Y	A	LL	N	E	R	N
R	W	U	E	H	W	U	H	O	DD	TH	I
G	Y	N	B	D	LL	I	E	N	F	A	D
E	W	G	C	N	G	N	E	G	E	S	I
G	O	I	G	I	E	R	C	Ŵ	D	Y	G
D	I	B	O	A	E	R	I	F	O	R	P
C	A	N	T	R	A	S	R	I	N	TH	E
D	N	H	A	D	A	U	U	C	A	I	E
R	U	G	A	T	D	U	W	L	B	O	P

ADAR
AEDDFED
BWYTA
CANT
CNWD
CREDU
CREIGIOG
DA
DRAIN
DŴR
GWYWO
HAU
HADAU
HEUWR
IESU
LLWYBR
NEGES
PLANHIGION
POBL
POENI
PRIDD
PROFI
SATHRU
SYRTHIO
TAGU
TRAED

'Chopsticks' diolch

Mae 'diolch' yn air pwysig iawn. Rydyn ni'n cael cymaint o bethau gan Dduw! Yn y gêm hon, mae cyfle i ddiolch i Dduw am rai ohonyn nhw.

Byddi angen:

- 'Chopsticks' – pâr i bob chwaraewr neu 2 lwy de bob un
- Cneuen (***newidiwch os oes alergedd cnau***)
- Darn o basta
- Grawnwinen
- Sgwâr o fara

Sut i chwarae:

- Mae'r chwaraewyr yn eistedd mewn cylch o gwmpas bwrdd.
- Mae pob chwaraewr yn cael pâr o 'chopsticks' neu lwy de.
- Mae'r chwaraewr cyntaf yn codi'r gneuen gyda'r 'chopsticks' neu'r llwy de ac yn ei phasio i'r chwaraewr nesaf.
- Wrth wneud hyn mae'r chwaraewr yn dweud, "Diolch, Dduw, am yr heulwen!" neu "Diolch Dduw am fotymau!" neu unrhywbeth!
- Unwaith mae'r gneuen wedi bod o gwmpas y bwrdd, mae'r un peth yn cael ei wneud gyda'r bwydydd eraill.
- Os mae'r chwaraewr yn gollwng y bwyd, mae'n dweud "Diolch, Dduw, am ..." (rhywbeth arall) cyn pasio'r bwyd ymlaen.
- Pa mor gyflym fedrwch chi basio un darn o fwyd o gwmpas y cylch?

Gweddi Greadigol

Diolch Deiliog!

- Edrycha ar y byd naturiol o dy gwmpas. Onid ydy o'n rhyfeddol a hardd?
- Edrycha ar yr amrywiaeth o goed a dail, eu lliwiau a'u siapiau.
- Mae pob deilen yn unigryw, yn union fel ag yr wyt ti!
- Dewisa un ddeilen a'i gosod yng nghanol taflen o bapur. Ysgrifenna restr o bopeth rwyt ti'n ddiolchgar amdanynt.
- Mae'n bwysig bod yn ddiolchgar.
- Tra'r wyt ti'n gwneud lluniau neu'n ysgrifennu neu pan wyt ti wedi gorffen diolcha i Dduw am yr holl bethau rwyt ti wedi meddwl amdanyn nhw.

Plât Gwag

- Beth ydy dy hoff fwyd?
- Gwna luniau neu torra luniau allan o gylchgronau o dy hoff fwydydd a'u gludo ar blât papur.
- Mae yna lawer iawn o bobl sydd ddim yn cael digon i'w fwyta yn y wlad hon a thramor.
- Ysgrifenna weddi ar y plât yn gofyn i Dduw roi bwyd i bawb.

Dolenni

Fideo o'r stori
https://youtu.be/VPp5xx1FV0I

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/DCHB4DAKx3g

Cartŵn o'r stori
http://beibl.net/storir-ffermwr-yn-hau

Posau

Yr heuwr

Fedri di weld 7 gwahaniaeth rhwng y 2 lun?

Pridd a phobl

Roedd gan Iesu neges yn y stori.
Tynna saeth o'r lluniau at y geiriau cywir.

Pobl yn clywed ond yn anghofio'r neges

Pobl yn clywed y neges ac yn dal ati

Pobl yn clywed y neges ond pethau eraill yn bwysicach

Pobl wrth eu bodd gyda'r neges ond yn rhoi fyny

Datrys y cod

Allwedd i'r cod:

A	B	C	CH	D	DD	E	F	FF	G	NG	H	I	L	LL	M	N	O	P	PH	R	RH	S	T	TH	U	W	Y
1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27	28

28,21 12,1,5,1,26 23,28,21,25,13,18,6 13 2,21,13,6 5,1 28,5,28'21 2,18,2,14

12,28,17,17,28 23,28'17 3,14,28,27,7,5 28 17,7,10,7,23 1,3 28,17 5,1,14

10,1,8,1,7,14 13,'21 5,13,27,7,6 – 19,18,2,14 23,28,6 1̂ 4,1,14,18,17

1,10,18,21,7,5 6,13,5,27,28,15. 14,26,3 F:LL

DYDDIADUR TREFECA

ELWYN RICHARDS

Adolygiad: Jenny Garrard, *A Trefeca Diary, 2020*

Saif Coleg Trefeca nid nepell o Dalgarth, ar gwr dwyreiniol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dyma, yn y ddeunawfed ganrif, gartref Howel Harris, y pregethwr a'r efengylwr fu'n cyd-weithio â William Williams, Pantycelyn ac eraill adeg y Diwygiad Mawr.



Tua diwedd ei oes sefydlodd Howel Harris gymuned gydweithredol, Gristnogol yn Nhrefeca a adwaenid fel 'y Teulu'. Maes o law daeth y lle yn eiddo i Sasiwn y De. Bu wedyn yn Goleg Diwinyddol yn hyfforddi ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth, cyn cael ei droi yn 1966 yn ganolfan hyfforddi lleygwyr.

Yn y 1970au roedd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru tua naw deg mil o aelodau – dros dair gwaith yr aelodaeth bresennol – ac roedd yr Eglwys ar hyd a lled y byd yn deffro i le a chenhadaeth lleygwyr yn yr eglwysi lleol. Canlyniad y sylweddoliad fod Ysbryd Duw ar waith drwy'r cynulleidfaoedd a'r aelodau, yn fwy na thrwy'r strwythurau enwadol, oedd hynny. Gwelwyd yr angen i arfogi Cristnogion cyffredin i wneud eu rhan yng ngwaith mawr y Deyrnas, a daeth pwyslais newydd ar hyfforddiant lleygwyr. Dyna pam y sefydlwyd Coleg Trefeca yn ganolfan o'r fath. Yn 1973 daeth Saesnes ifanc o Eye yn swydd Suffolk yno yn gynorthwyydd gweinyddol. Maes o law fe ddysgodd Jenny Garrard Gymraeg, ac fe'i hordeiniwyd yn weinidog gan yr enwad. Bellach, a hithau wedi ymddeol, a throsglwyddo Cadeiryddiaeth Pwyllgor Coleg Trefeca i'r Parchedig Trefor Lewis, y mae wedi llunio llyfryn o atgofion am ei dyddiau cynnar yn y Coleg. Fel y gellid disgwyl, y mae tinc personol iawn i'r cynnwys, ond ceir gan Jenny hefyd gipolwg ar fywyd crefyddol, enwadol a chymdeithasol Cymru yn ystod y 1970au a'r 1980au.

Mae'r llyfryn i'w ganmol, nid yn unig am roi inni gip ar fywyd yn y Coleg o ddydd i ddydd a'r her o gynnal y fath sefydliad, y defnyddwyr amrywiol a'r gwaith mawr a wnaed yno, ond hefyd am roi inni flas o wefr y genhadaeth mewn cyfnod o newid cymdeithasol pan oedd yr enwadau yn ceisio dod ynghyd a chysylltiadau newydd yn cael eu creu yn genedlaethol a rhyngwladol.

I'r rhai sydd wedi bod yn aros yng Ngholeg Trefeca bydd y llyfryn hwn yn siŵr o daro tant a dwyn yn ôl amryw o atgofion. I'r rhai sy'n gyfarwydd â bywyd y Cyfundeb rhy ddarlun diddorol o rai o ddatblygiadau pwysicaf ein hanes

diweddar. Ac i bawb sy'n ymddiddori yn y genhadaeth Gristnogol rhy gipolwg o Dduw ar waith mewn cwrs a chynhadledd, seiat a phenwythnos preswyl, astudiaeth Feiblaidd a thrafodaeth. Drwy lygaid Jenny gwelwn bwysigrwydd perthynas, menter, ymroddiad a pharodrwydd i ymateb i ofynion cyfnod newydd.

Gellir cael copïau o'r llyfr yn Nhrefeca neu drwy'r post oddi wrth Y Parchedig Jenny Garrard, 18 Hafren Terrace, Llanidloes, SY18 6AT. 01686 413354. E-bost j.garrard@pc-q.net Y gost yw £5 + £1.40 cludiant.

Y STORI TU ÔL I'R DÔN

ENID ROBERTS

Yn ddiweddar yn y gwasanaethau a ddarparwyd gan ein gweinidog ar ein cyfer ar y we, dros gyfnod y 'clo', clywsom y dôn 'Llef' yn cael ei chanu o Gymanfa Ganu'r Tabernacl, Treforys.

Tybed faint ohonoch sydd yn gwybod i'r Dr Roddy Walters, y cyfansoddwr o'r Fenni, gyfansoddi trefniant newydd o'r hen dôn boblogaidd 'Llef' (rhif 567 yn *Caneuon Ffydd*) a gyfansoddwyd gan Gruffudd Hugh Jones (Gutyn Arfon)?

Ganwyd Gruffudd yn Nhŷ Du, Llanberis, yn y flwyddyn 1849. Heddiw mae'r tŷ helaeth yn lloches i gerddwyr ac yn Awst eleni rhwygwyd derwen fawr, a dyfai yn yr

Mae Gutyn Arfon wedi'i gladdu ym mynwent Eglwys Sant Peris, Nantperis.

ardd, o'i gwreiddiau gan y gwyntoedd gwyllt.

Pan oedd yn ugain oed apwyntiwyd Gruffudd yn brifathro Ysgol Rhiwddolion, Coed Gwydir ger Betws-y-coed, lle'r arhosodd am hanner canrif. Brawd hŷn iddo oedd y Parchedig David H. Jones (Dewi Arfon) a anwyd yn 1833 ond a fu farw fore Nadolig 1869 yn 36 blwydd oed. Cafodd hyn gryn effaith ar Gruffudd gan ei ysgogi, yn 1890, i ysgrifennu tôn yn y cywair lleddf er cof am ei frawd. Canwyd y dôn 'Llef' gyntaf mewn cymanfa ganu yn Nolwyddelan yn 1893, dan arweiniad David Jenkins i eiriau David Charles (y tad neu'r mab – does neb yn berffaith siŵr).


Y BYWYD CRISTNOGOL A'R BYWYD TRAGWYDDOL

567 LLEF M5 / M.H. G.H. JONES (GUTYN ARFON), 1849-1919

O Iesu mawr rho d'anian bur
I eiddil gwan mewn anial dir.

Gruffudd hefyd fu'r cyntaf yn Arfon i ddwyn offeryn cerdd i oedfa, a hyn yn y capel yn Rhiwddolion. Sefydlodd amryw o ddosbarthiadau sol-ffa ac roedd yn arweinydd undeb corawl a seindorf ym Metws-y-coed. Yn ogystal, trefnai operetas i'r plant. Bu'n feirniad canu ac yn arweinydd cymanfaoedd.

Ar ochr Sarn Helen sydd yn mynd drwy Riwddolion dywedir bod carreg arysgrifedig ac arni sgôr gerddoriaeth. Tybed ai'r dôn 'Llef' yw? A oes rhywun ohonoch wedi ei gweld?

Erbyn heddiw mae'r geiriau a'r dôn wedi ymbriodi ac yn ffefryn gan gorau meibion ledled Cymru a chan gymanfaoedd canu ar draws y byd. Bu farw Gruffudd Hugh Jones yn 1919.

Yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, canwyd y geiriau ar hen alaw adnabyddus 'Genevieve'. Ac yn 1941 defnyddiwyd 'Llef' ar drac sain ffilm John Ford, *How Green was my Valley*, a seiliwyd ar nofel a ysgrifennwyd gan Richard Llewelyn yn 1939.

Tybed pa faint o groeso a gaiff y trefniant newydd gan y corau a'r cymanfaoedd canu? Rhaid ond aros a gweld!

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

‘Mi af i’r ysgol fory…’

Fis Medi fe ailagorodd yr ysgolion ar ôl bod ar gau ers diwedd Mawrth, ar wahân i gyfnod byr cyn gwyliau’r haf. Sut brofiad fu dychwelyd i’r ysgol wedi’r holl amser? Dyma argraffiadau rhai o'r plant.

Cai Dafydd (Blwyddyn 8)
Pan glywais fod yr ysgol yn ailagor roeddwn wedi cyffroi’n lân. Roedd yn od ar y cychwyn ond erbyn hyn rwyf wedi arfer ac mae’n teimlo’n normal. Yn yr ysgol rydym yn gorfod gwisgo mygydau yn y coridorau. Ar y cychwyn roeddem yn gorfod aros yn yr un dosbarth i gael ein holl wersi. Dydyn ni ddim yn cael gwneud chwaraeon sydd yn ymwneud â chyffwrdd ein gilydd, fel pêl-droed, sydd yn siomedig iawn. Yr wythnos ddiwethaf roedd un dosbarth o ’mlwyddyn i yn gorfod hunanynysu. Diolch byth bod Blwyddyn 8 yn cael dychwelyd ar ôl hanner tymor.

Math Dafydd (Blwyddyn 2)
Pan oedd hi’n amser mynd yn ôl i’r ysgol ar ôl cyfnod hir adref roeddwn yn gyffrous am fynd nôl i weld ffrindiau fi! Rydan ni’n bwyta bocs bwyd yn y dosbarth erbyn hyn. Mae’r athrawon yn edrych ar ein hôl ni, yn gwneud i ni olchi dwylo yn aml.

Noa Dafydd (Blwyddyn 6)
Cyn mynd nôl i’r ysgol roeddwn yn edrych ymlaen yn fawr i weld fy ffrindiau ac i wneud mathemateg. Rydym yn gorfod aros 2 fedr oddi wrth yr athrawes ac amser chwarae rydym mewn swigen gyda'n dosbarthiadau ar y buarth. Ar ddiwedd bob dydd rydym yn rhedeg milltir rownd y trac mewn 10 munud. Does neb yn cael chwarae offeryn yn yr ysgol ar hyn o bryd ond mae hyn am newid yn yr ysgol newydd. Roedd rhai disgyblion yn gorfod aros adref i gael prawf y feirws.

Fflur Jones (Blwyddyn 4)
Roedd hi yn braf mynd yn ôl i'r ysgol mis Medi oherwydd roeddwn yn cael gweld fy ffrindiau unwaith eto. Rydw i hefyd wedi gwneud ffrindiau newydd

Rydw i mewn dosbarth gwahanol eleni ac wedi cael athro newydd. Mae hi wedi bod yn gyfnod da i mi. Mae yna betha yn wahanol i'r ffordd yr oedden nhw cyn y cyfnod clo cyntaf. Rydw i mewn swigen gyda fy nosbarth a dydw i ddim yn cael chwarae hefo plant dosbarth arall. Rydyn ni hefyd yn gorfod golchi ein dwylo yn aml yn ystod y dydd. Mae hi'n gyfnod cyffrous yn Ysgol y Garnedd gan ein bod ni'n cael symud i'r ysgol newydd ar ôl hanner tymor, rydw i'n edrych ymlaen yn fawr. Rydw i yn edrych ymlaen i bob dim fynd yn ôl i'r arfer er mwyn i ni allu gweld teulu sydd yn byw yn bell a chael pawb yn dod at ei gilydd eto.

Fflur Edwards (Blwyddyn 8)
Roeddwn i'n teimlo ychydig yn nerfus ar ôl treulio llawer o amser i ffwrdd, ac roedd mynd yn ôl i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo yn od iawn. Roeddwn yn hapus o gael gweld fy ffrindiau a'r athrawon, ac yn fuan fe wnes i setlo i'r ffordd newydd. Rydw i'n falch o gael bod yn ôl yn yr ysgol oherwydd rydym yn cael addysg well wyneb yn wyneb.

Mae ysgol yn wahanol iawn rŵan oherwydd bod y rheolau wedi newid. Rhai pethau sy'n wahanol yw ein bod angen gwisgo mwgwd wrth gerdded ar y coridorau a bod llawer o dâp ar y llawr i'n hatgoffa i gadw pellter. Mae'r athrawon angen cadw 2 fedr i ffwrdd oddi wrthon ni ac nid ydynt yn gallu dod yn agos atom i egluro pethau. Peth arall yw mai dim ond efo disgyblion fy nosbarth i rydw i'n cael bod amser egwyl a chinio.

Dydi'r gweithgareddau amser cinio ddim yn gallu digwydd, e.e. gweithgareddau chwaraeon fel pêl-rwyd a gymnasteg, hefyd gweithgareddau cerddorol fel y band a'r côr. Mae rhai o'r athrawon yn rhoi cyfleoedd i ni wneud pethau ar lein, e.e. band a chôr rhithiol. Rydym wedi recordio fideos o'n perfformiadau ni adref ac mae'r athrawon wedi'u rhoi at ei gilydd i greu band neu gôr cyfan. Mi oedd hyd yn oed noson wobrwyo ar lein!

Mae'n braf cael gweld pawb eto a pheidio treulio gymaint o amser ar fy nghyfrifiadur! Er ei bod hi mor wahanol, dwi'n falch o gael bod yn ôl.

AILAGOR Y DRYSAU

Arweiniodd Covid-19 at gau ein haddoldai am fisoedd lawer. Ond ar bump o Suliau rhwng y clo cyffredinol a'r clo byr a gyflwynwyd yng Nghymru'n ddiweddar, fe lwyddwyd i gynnal oedfaon ym Merea Newydd a'r bwriad yw gwneud hynny eto'n fuan, unwaith y codir y cyfyngiadau presennol. Yma, mae tair o'n haelodau yn dweud sut brofiad fu dychwelyd i'r capel ar ôl cymaint o amser ac o dan amodau mor wahanol i'r arfer.

EIRIAN HOWELLS

Fy enaid a hiraetha, ie, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd.

Ar fore braf 20 Medi cawsom droedio tua'r tŷ... yn ddisgwylgar, yn nerfus, dan orchudd wyneb, gan ddiheintio'n dwylo.

Cawsom *weld* ein Gweinidog, ein cyd-flaenoriaid, ein cyd-aelodau – o hirbell.

Gŵr a gwraig, mam a merch, dwy chwaer yn eistedd efo'i gilydd.

Y pellter oedd rhyngddynt oedd fawr oedd hanes y gweddill ohonom, yn dyheu am gwmni'r anwyliaid na allent, na fentrent lenwi'r bylchau.

Clywsom fel y bylchwyd yr Eglwys yn ystod y cyfnod clo, wedi colli tri aelod annwyl a phedwar teulu arall mewn profedigaeth. Chwithig iawn oedd methu ysgwyd llaw i gydymdeimlo. Cofiem am y rhai o'n plith oedd yn unig ac yn dioddef.

Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ, yn wastad y'th foliannant – cafwyd moliant na chlywyd ei fath ym Merea Newydd trwy wyrthiau technoleg – gan godi'n hysbryd.

Dameg y Gweithwyr yn y Winllan oedd testun y bregeth y bore hwnnw a'r bore Sul canlynol ein gweithiwr ffyddlon ni oedd yn ein hannog: Paid â phoeni. Mor braf ei weld o a'i deulu efo ni eto. Diolch am gwmni'r plant mewn lluniau lu ar y sgrin.

Arwydd o'r dyfodol oedd croesawu Nerys Griffiths, ymgeisydd am y weinidogaeth, ar 11 Hydref.

'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod...

SIONED JONES

Bore arbennig o haf bach Mihangel ac mae cynhesrwydd ym mhob ystyr i'w deimlo yn y maes parcio heddiw. Y Gweinidog allan yn croesawu pawb ac mae mor braf cael cyfle i ddweud helo wrth hwn a'r llall. Popeth i weld yn ardderchog o ran trefniadau diogelwch ac er gwaetha'r mygydau, gwybod fod gwên ar wyneb pawb er na welwn hi. Dilyn y blaenoriaid i chwilio am sedd ar wahân, rydym wedi cyffroi, fel plant yn mynd nôl i'r ysgol ond wir, yn dilyn y *Sanctus* agoriadol, pawb yn ymroi i'r addoliad bendithiol.

Er gwaetha'r sgrin, y Gweinidog yn glir ac yn

amlwg. Ddim yn siŵr pan na allwn gael rhywun wrth yr organ chwaith. Mae'r Caneuon Ffydd i gyd wedi diflannu ac er nad oes canu, daw recordiadau o emynau atom o rywle yn slic iawn. Ond rhaid dweud mai digon lleddf yw'r dewis heddiw.

Gwrando ar yr anerchiad, dameg y Gweithwyr yn y Winllan yn gwneud i mi feddwl ac am y tro cyntaf ers tro, penderfynu darllen y myfyrdod yn iawn ar yr e-bost ar ôl mynd adre. Cawn glywed newyddion am rai o'r aelodau a sylweddoli gymaint mae hynny wedi bod ar goll.

Rhagor o sgwrsio ar y ffordd allan, dwi'n siŵr bod Cynthia a John Wynn yn poeni am y rheol 2 fetr; ond mae cael addoli gyda'n gilydd wedi bod yn werthfawr iawn a theimlo'n rhan o gymdeithas unwaith eto.

Fis yn ddiweddarach ac mae Bangor dan warchae! Deallwn fod y FFIN ychydig ddrysau i lawr o dŷ Menna Baines. Dwi'n cwyno wrth fy ffrindie sy'n meddwl ei bod yn braf arnon ni ym Mhenrhos – "ond dwi ddim yn cael mynd i TESCO (na Morrisons, nac Asda *et al*); na'r LLE GWALLT na'r CAPEL!" Maen nhw'n meddwl fy mod yn gwamalu gan nad wyf yr aelod ffyddlonaf ond mae fy siom y penwythnos hwn yn gwbl ddiffuant. Bydd y teimlad o gymdeithas a hapusrwydd a pherthyn y Sul cyntaf hwnnw yn aros gyda mi yn hir**.**

DELYTH M. WILLIAMS

Petawn i'n gwbl onest roedd yna ambell Sul ar ddechrau'r cyfnod clo pan oedddwn i'n ddigon balch o gael gwylio'r oedfa ar y teledu tra oeddwn i'n

swatio gartref a dim angen rhuthro i unman. Ond wrth i'r wythnosau a'r misoedd fynd heibio buan y des i sylweddoli, fel pawb arall mae'n siŵr, nad ydi rhywun yn gweld gwerth rhywbeth tan ichi ei golli.

Er mor ddiolchgar oeddem o gyswllt e-bost wythnosol ein Gweinidog roeddwn i'n falch o gael y cyfle i ddychwelyd i'r capel ddydd Sul, 20 Medi. Wrth reswm, roedd yn brofiad gwahanol iawn i'r arfer ond roedd yna rywbeth 'normal' iawn am fod yn eistedd yn yr adeilad ar gyfer y gwasanaeth a hynny ar fore mor braf. Ond, yr hyn a'm trawodd fi fwyaf oedd pa mor braf oedd gweld pobl a chael sgwrs ag eraill fasg wrth fasg!

Rhaid cyfaddef i'r fideo yr oedd Owain wedi ei pharatoi ar gyfer yr wythnos ganlynol fod yn dra emosiynol i'w gwylio; cyfres o luniau yn crisialu profiadau plant a theuluoedd y capel ers mis Mawrth, o goginio i arddio ac o fynd am dro i ddathlu pen-blwydd. Pawb wedi bod yn byw yn eu byd bach eu hunain ac yn ceisio gwneud y gorau o'r sefyllfa.

A ninnau bellach mewn cyfnod clo arall, a Berea Newydd felly ar gau am rai Suliau eto, dyma fi'n ôl yn swatio gartref, ond yn cymryd cysur o wybod y bydd y drws ar agor i mi pan ddaw dyddiau gwell.

Y giatiau ar glo, a dim Ysgol Sul am y tro ar gyfer Gwion Jones

APÊL HYDREF CYMORTH CRISTNOGOL

Gan na fu modd cynnal Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai eleni mae'r elusen yn cynnal apêl arbennig yr hydref yma. Gallwch gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol ar hyd a lled y byd drwy ymgyrch a gweddi, a thrwy gyfrannu'n ariannol.

Un o'r problemau mawr sy'n wynebu rhai o'r gwledydd tlotaf yw newid hinsawdd. Dyma stori Angela o Nicaragua:

Arferai fferm Angela roi bywoliaeth dda i'w theulu. Ond nawr mae'n wynebu argyfwng. Mae effaith newid hinsawdd ar Nicaragua yn golygu bod ei chnwd coffi yn lleihau bob blwyddyn. Arferai ffermwyr coffi golli dim ond 5% o'r cnwd. Nawr mae'n 30%. Ar yr un pryd, mae prisiau coffi wedi gostwng yn fyd-eang. Mae Angela'n bryderus: 'Bydd yn drychineb llwyr ac yn fethiant inni oherwydd fel ffermwyr, trwy dyfu cnydau yr ydym yn goroesi. O ble y daw ein hincwm?'

Ail wlad dlotaf America Ladin yw Nicaragua. Mae hefyd yn un o'r gwledydd yr effeithir waethaf arnynt gan newid hinsawdd. Mae 80% o'r boblogaeth yn dibynnu ar amaethyddiaeth i oroesi. Mae nifer yn tyfu coffi fel eu prif ffrwd incwm. Wrth i'r argyfwng hinsawdd barhau, mae eu dyfodol yn edrych yn fwyfwy bregus.

Ond mae gobaith. Gyda'ch cefnogaeth, mae cymuned Angela'n dod ynghyd fel menter gydweithredol er mwyn rhannu

Angela gyda'i merched Johaira ac Ariana

adnoddau a gwybodaeth, ac i warchod bywoliaethau ar frys.

Mae'r fenter wedi ei chefnogi gan bartner lleol Cymorth Cristnogol, Soppexcca. Maent yn helpu cymuned Angela i ddod ynghyd gyda gwahanol brosiectau a syniadau, o erddi llysiau ysgol i weithdai cyfartaledd rhyw.

Un o'r prif ffyrdd y maent yn helpu'r gymuned i warchod ei bywoliaeth yw trwy symud oddi wrth gynhyrchu coffi tuag at goco sy'n fwy gwydn i allu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.

'Rwy'n teimlo'n falch o fod yn rhan o'r fenter gydweithredol ac mae gennym y cyfle i rannu gwybodaeth a dysgu oddi wrth ein gilydd,' meddai Angela.

Mae cyfle i chi gyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol yn awr drwy

- roi eich cyfraniad i un o'r blaenoriaid
- dudalen JustGiving Apêl yr Hydref Gogledd Cymru: https://www.justgiving.com/fundraising/GogleddCymruNorthWales

Hefyd bwriedir gwneud casgliad arbennig rhwng hyn a'r Nadolig mewn oedfa fydd yn canolbwyntio ar waith Cymorth Cristnogol.

Y DYDDIADUR

TACHWEDD

Llun 9, 7.30pm	OEDFA CYMORTH CRISTNOGOL drwy drefniant Cytûn Bangor ar Zoom. Ymunwch drwy'r linc yma: https://tinyurl.com/yxu6jom3
Bob nos Sul, 5.30	OEDFA FER AR Y FFÔN. Gellwch ymuno fel hyn: • Deialu **0333 0164 757** • Bydd llais yn eich croesawu i 'WhyPay' ac yn gofyn am eich 'room number followed by the hash key' – **29520135#** • ac yna bydd yn gofyn am eich 'pin followed by the hash key' – **9653#** (Mae'r 'hash key' # ar waelod deial y ffôn.) (Gallwch ymarfer ymlaen llaw, a'r hyn a glywch yn dilyn deialu'r rhif 'pin' fydd: ***(You are currently the only person in this conference...)***
Mercher 18, 7–8pm	CWRS Y BEIBL ar Zoom (manylion isod)
Mercher 25, 7–8pm	CWRS Y BEIBL ar Zoom

RHAGFYR

Mercher 2, 7–8pm	CWRS Y BEIBL ar Zoom
Mercher 9, 7–8pm	CWRS Y BEIBL ar Zoom

CWRS Y BEIBL: Bydd y cwrs newydd hwn yn cael ei gynnal ar Zoom ar y nosweithiau Mercher a nodir uchod. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gydag Owain: 07789 887689 / 01492 640525 / owain.davies@ebcpcw.cymru

E-BOST BOB SUL: Bwriadwn barhau i anfon e-bost bob Sul at yr aelodau hynny sydd wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â hwy drwy lenwi'r ffurflen Rheoliadau Cyffredinol Diogelwch Data (GDPR). Os nad ydych yn derbyn e-bost a myfyrdod y Sul anfonwch air, os gwelwch yn dda, at elwyn.richards@ebcpcw.cymru

COFIO'R CYFNOD CLO

Owain Davies oedd yng ngofal yr oedfa ym Merea Newydd ar 27 Medi, sef yr ail oedfa wedi i'r capel ailagor. Fel rhan o'r oedfa, dangosodd Owain gyfres, ar ffurf fideo, o luniau o blant yr Ysgol Sul a'r clybiau a'u teuluoedd, yn dangos rhai o'r pethau amrywiol y buont yn eu gwneud yn ystod y cyfnod clo. Roedd pawb oedd yn bresennol yn y capel wrth eu boddau'n cael 'gweld' y plant eto wedi'r holl amser, a rhai o'r plant wedi tyfu ers inni eu gweld ddiwethaf! Dyma ddetholiad o rai o'r lluniau.

1136
1033